**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Papur Briffio ar Ddiweithdra
Mai 2012

Mae'r papur briffio misol hwn yn rhoi trosolwg ystadegol oddueddiadau diweithdra.

Caiff gwybodaeth am etholaethau'r Cynulliad, Cymru a chenhedloedd a rhanbarthau'r DU ei chynnwys.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1369

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Papur Briffio ar Ddiweithdra

Mai 2012

Gareth Thomas

Rhif dogfen: 12/019

Gwasanaeth
Ymchwil

# Papur Briffio ar Ddiweithdra: Mai 2012

## Cyflwyniad

Caiff ystadegau am ddiweithdra eu cyhoeddi'n fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y Swyddfa Ystadegau). Caiff y papur hwn ei ryddhau'n fuan wedi i ddata'r Swyddfa Ystadegau gael ei gyhoeddi. Nod y papur yw darparu crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf am ddiweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

**Mae adran 1 yn cynnwys y prif ffigurau a dadansoddiadau. Ceir rhagor o wybodaeth yn adrannau 2 i 6.**

Yn ogystal â gwybodaeth am y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) a dulliau o fesur nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra, mae'r papur hwn yn cynnwys ffigurau answyddogol o gyfraddau nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn seiliedig ar gartrefi yn Etholaethau'r Cynulliad. Mae'r rhain yn fesuriadau gwahanol i'r rhai a gaiff eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau. Oherwydd newid yn y fethodoleg, nid yw'n bosibl cymharu'r canrannau answyddogol yn y papur briffio hwn â chanrannau sydd wedi'u cyhoeddi mewn papurau cyn mis Awst 2010. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Atodiad Technegol.

## 1: Y prif ffigurau

### Prif ddangosyddion arolwg o'r llafurlu (LFS) a ffigurau diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO)[1]

- O fis Ionawr i fis Mawrth 2012, roedd nifer y bobl mewn gwaith yng Nghymru yn 1,341,000. Mae hyn yn ostyngiad o 3,000 ers y chwarter blaenorol ac yn ostyngiad o 6,000 ers y flwyddyn flaenorol;
- O fis Ionawr i fis Mawrth 2012, roedd ffigurau diweithdra ILO Cymru yn 132,000. Mae hyn yn ostyngiad o 1,000 ers y chwarter blaenorol ac yn gynnydd o 20,000 ers y flwyddyn flaenorol;
- Canran diweithdra ILO Cymru o fis Ionawr i fis Mawrth 2012 oedd 9.0 y cant. Mae hyn yn gynnydd o 7.7 y cant o fis Ionawr i fis Mawrth 2011. Canran ILO ar gyfer dynion oedd 9.6 y cant, sef cynnydd o 9.0 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Canran ILO ar gyfer menywod oedd 8.3 y cant, sef cynnydd o 6.3 y cant ers y flwyddyn flaenorol. *Ffigur 2.1;*
- Rhwng mis Hydref 2010 a mis Medi 2011, roedd 50,100 o bobl rhwng 16 a 24 oed yn ddi-waith yn ôl ffigurau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Y canran diweithdra ILO ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed oedd 23.4 y cant. *Tabl 5.1 a Ffigur 5.1* ; a
- O fis Ionawr i fis Mawrth 2012, nifer y bobl a oedd yn economaidd anweithgar[2] yng Nghymru, rhwng 16 a 64 oed, oedd 473,000. Mae hyn yn gynnydd o 7,000 ers y chwarter blaenorol ac yn ostyngiad o 11,000 ers y flwyddyn flaenorol.

### Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra [3]

- Ym mis Ebrill 2012, canran y bobl a oedd yn hawlio budd-dal diweithdra yng Nghymru oedd 5.5 y cant. Mae hyn yn cymharu â 5.0 y cant ym mis Ebrill 2011. *Ffigur 2.2*;
- Gwelwyd gostyngiad o 300 yng nghyfanswm nifer y bobl a oedd yn hawlio budd-dal diweithdra yng Nghymru ers y mis blaenorol. Roedd hyn yn gynnydd o 8,100 ers mis Ebrill y llynedd;
- Gwelwyd gostyngiad o 1,685 ers y mis blaenorol yn nifer y bobl rhwng 18 a 24 oed sy'n hawlio budd-dal diweithdra. Roedd hyn yn gynnydd o 2,680 ers mis Ebrill y llynedd. *Tabl 5.2*

---

[1] Canran diweithdra'r **Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO)** yw nifer ILO o'r bobl sy'n ddi-waith fel canran o'r boblogaeth economaidd weithgar sy'n 16 oed a hŷn. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd heb waith ond sydd eisiau swydd; y rhai sydd wedi bod yn chwilio am waith yn y pedair wythnos diwethaf ac sydd ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf; a'r rhai sydd heb waith, sydd wedi dod o hyd i swydd ac sy'n aros i ddechrau gweithio o fewn y pythefnos nesaf. Mae'r ffigurau'n deillio o arolygon o gartrefi a gaiff eu cynnal bob chwarter blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r rhain yw'r prif ddull o fesur diweithdra yn y Deyrnas Unedig.


[2] Caiff pobl sy'n **economaidd anweithgar** eu diffinio fel pobl nad ydynt eisiau swydd, y rhai sydd eisiau gwaith ond sydd heb fod yn chwilio am waith yn y pedair wythnos diwethaf, a'r rhai sydd eisiau gwaith ac sy'n chwilio am waith ond nad ydynt ar gael i ddechrau gweithio.

[3] Dim ond pobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith sydd wedi'u cyfrif yn y dull o fesur **nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra**. Mae'n is na diffiniad yr ILO, oherwydd nid oes gan rai pobl sy'n ddi-waith yr hawl i fudd-dal diweithdra, neu maent yn dewis peidio â gwneud cais amdano. Mae canrannau Etholaethau'r Cynulliad yn amcangyfrifon answyddogol a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau (gweler yr Atodiad Technegol).

- Yr Etholaethau Cynulliad a oedd â'r canrannau hawlio budd-dal diweithdra uchaf ym mis Ebrill 2012 (yn seiliedig ar amcangyfrifon answyddogol) oedd Blaenau Gwent (12.4 y cant) a Merthyr Tudful a Rhymni (11.7 y cant). Yr etholaethau â'r amcangyfrifon isaf o'r canrannau hawlio budd-dal diweithdra oedd Sir Drefaldwyn (3.0 y cant), a Cheredigion (3.0 y cant). *Tabl 6.2.*


## 2: Ystadegau ar ddiweithdra yng Nghymru [4]

### Ffigur 2.1: Canran diweithdra ILO




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau rhanbarthol y llafurlu – Mai 2012: Prif ddangosyddion Cymru: Tabl 1 – Crynodeb o brif ddangosyddion LFS

### Ffigur 2.2: Canran y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfres Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra a'r swyddi gwag

[4] Gweler yr Atodiad Technegol am ddiffiniadau o ddata diweithdra a ddefnyddiwyd yn y papur hwn.

## 3: Ystadegau ar ddiweithdra ar gyfer y Deyrnas Unedig

### Tabl 3.1: Canran diweithdra ILO

| Mis Ionawr i fis Mawrth | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 2012 | 9.0 | 8.3 | 8.2 | 6.7 | 8.2 |
| 2011 | 7.7 | 7.8 | 7.7 | 7.2 | 7.7 |
| 2010 | 9.3 | 8.0 | 8.2 | 6.9 | 8.0 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau rhanbarthol y llafurlu – Mai 2012: Crynodeb o brif ddangosyddion – Tabl 1 a StatsCymru [000430]


### Tabl 3.2: Canran y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra

| Mis Ebrill | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 2012 | 5.5 | 4.7 | 5.2 | 6.8 | 4.9 |
| 2011 | 5.0 | 4.4 | 5.1 | 6.5 | 4.5 |
| 2010 | 5.2 | 4.5 | 5.0 | 6.1 | 4.6 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau rhanbarthol y llafurlu – Mai 2012: Crynodeb o brif ddangosyddion – Tabl 2 a StatsCymru [007317]


# 4: Ystadegau ar ddiweithdra yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig

### Ffigur 4.1: Canran diweithdra ILO (o fis Ionawr i fis Mawrth 2012)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Ystadegau rhanbarthol y llafurlu - Mai 2012: Crynodeb o brif ddangosyddion - Tabl 1]


### Ffigur 4.2: Canran y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra (Ebrill 2012)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Ystadegau rhanbarthol y llafurlu - Mai 2012: Crynodeb o brif ddangosyddion - Tabl 2]


## 5. Lefelau diweithdra yn ôl grŵp oedran

### Ffigur 5.1: Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl grŵp oedran (ni chaiff hwn ei addasu'n dymhorol)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ystadegau swyddogol y llafurlu gan NOMIS

### Ffigur 5.2: Cyfradd y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn ôl grŵp oedran (ni chaiff hwn ei addasu'n dymhorol)[5]




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ystadegau swyddogol y llafurlu gan NOMIS: Proffil marchnad lafur Cymru

[5] Mae cyfraddau'r bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn ôl grŵp oedran yn cael eu cyfrifo gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn seiliedig ar y boblogaeth, ac nid ydynt yn ystyried cyfran y bobl sy'n economaidd anweithgar.

**Tabl 5.1: Nifer ILO y bobl sy'n ddi-waith, yn ôl grŵp oedran (ni chaiff hwn ei addasu'n dymhorol)**

| | 16-24 | 25-49 | 50-64 | 16 oed a hŷn |
|---|---|---|---|---|
| Hyd 2009 - Medi 2010 | 50,600 | 47,900 | 16,900 | 115,800 |
| Ion - Rhag 2010 | 50,000 | 49,600 | 17,700 | 117,900 |
| Ebr 2010 - Maw 2011 | 49,200 | 51,200 | 18,500 | 119,600 |
| Gor 2010 - Meh 2011 | 49,200 | 52,700 | 18,600 | 121,100 |
| Hyd 2010 - Medi 2011 | 50,100 | 50,800 | 19,100 | 121,000 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ystadegau swyddogol y llafurlu gan NOMIS


**Tabl 5.2: Nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, yn ôl grŵp oedran (ni chaiff hwn ei addasu'n dymhorol)**

| | 18-24 | 25-49 | 50+ |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2010 | 25,925 | 40,175 | 10,680 |
| Mai 2010 | 23,850 | 38,275 | 10,085 |
| Mehefin 2010 | 22,115 | 36,835 | 9,695 |
| Gorffennaf 2010 | 22,725 | 36,790 | 9,420 |
| Awst 2010 | 23,560 | 37,240 | 9,420 |
| Medi 2010 | 23,640 | 36,440 | 9,190 |
| Hydref 2010 | 23,130 | 35,515 | 9,200 |
| Tachwedd 2010 | 22,975 | 36,185 | 9,330 |
| Rhagfyr 2010 | 23,150 | 37,165 | 9,530 |
| Ionawr 2011 | 24,645 | 40,000 | 10,190 |
| Chwefror 2011 | 25,685 | 40,050 | 10,185 |
| Mawrth 2011 | 25,185 | 39,275 | 10,045 |
| Ebrill 2011 | 24,090 | 38,760 | 9,970 |
| Mai 2011 | 23,335 | 38,505 | 9,850 |
| Mehefin 2011 | 23,185 | 38,215 | 9,925 |
| Gorffennaf 2011 | 25,335 | 39,055 | 10,080 |
| Awst 2011 | 26,645 | 39,640 | 10,220 |
| Medi 2011 | 27,170 | 39,340 | 10,115 |
| Hydref 2011 | 26,880 | 39,105 | 10,220 |
| Tachwedd 2011 | 26,415 | 39,180 | 10,400 |
| Rhagfyr 2011 | 26,160 | 39,635 | 10,650 |
| Ionawr 2012 | 28,200 | 43,140 | 11,550 |
| Chwefror 2012 | 29,110 | 43,835 | 11,760 |
| Mawrth 2012 | 28,455 | 43,290 | 11,680 |
| Ebrill 2012 | 26,770 | 41,985 | 11,520 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ystadegau swyddogol y llafurlu gan NOMIS: Proffil marchnad lafur Cymru

## 6: Ystadegau ar ddiweithdra yn Etholaethau'r Cynulliad

**Map 6.1: Canran diweithdra ILO yn ôl Etholaethau'r Cynulliad (Hydref 2010 i Fedi 2011)** [6]





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gwasanaeth Ymchwil

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100047295.

[6] Y data diweddaraf sydd ar gael (ni chaiff hwn ei addasu'n dymhorol). Y gyfradd yw nifer ILO o'r bobl sy'n ddi-waith fel canran o'r boblogaeth economaidd weithgar sy'n 16 oed a hŷn.

**Map 6.2: Canran answyddogol o'r bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn ôl Etholaethau'r Cynulliad, Ebrill 2012** [7]




[7] Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Ymchwil. Pobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith fel **canran** o'r boblogaeth economaidd weithgar sydd rhwng 16 a 64 oed. Gweler yr atodiad technegol am fanylion.

**Tabl 6.1 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn ôl Etholaethau'r Cynulliad, Ebrill 2012 (ni chaiff hwn ei addasu'n dymhorol)**

| Etholaeth | Dynion | Menywod | Pobl |
|---|---|---|---|
| Aberafan | 1,239 | 546 | 1,785 |
| Aberconwy | 830 | 301 | 1,131 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 1,094 | 590 | 1,684 |
| Arfon | 993 | 361 | 1,354 |
| Blaenau Gwent | 2,325 | 1,117 | 3,442 |
| Bro Morgannwg | 1,759 | 712 | 2,471 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 717 | 367 | 1,084 |
| Caerffili | 1,920 | 911 | 2,831 |
| Canol Caerdydd | 2,080 | 803 | 2,883 |
| Castell-nedd | 1,174 | 529 | 1,703 |
| Ceredigion | 687 | 279 | 966 |
| Cwm Cynon | 1,661 | 802 | 2,463 |
| De Caerdydd a Phenarth | 2,600 | 1,106 | 3,706 |
| De Clwyd | 1,147 | 520 | 1,667 |
| Delyn | 979 | 520 | 1,499 |
| Dwyfor Meirionnydd | 637 | 255 | 892 |
| Dwyrain Abertawe | 1,622 | 709 | 2,331 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 737 | 369 | 1,106 |
| Dwyrain Casnewydd | 1,876 | 872 | 2,748 |
| Dyffryn Clwyd | 1,388 | 537 | 1,925 |
| Gogledd Caerdydd | 1,122 | 493 | 1,615 |
| Gorllewin Abertawe | 1,519 | 571 | 2,090 |
| Gorllewin Caerdydd | 2,223 | 897 | 3,120 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 1,010 | 406 | 1,416 |
| Gorllewin Casnewydd | 2,062 | 846 | 2,908 |
| Gorllewin Clwyd | 1,141 | 444 | 1,585 |
| Gŵyr | 835 | 362 | 1,197 |
| Islwyn | 1,648 | 762 | 2,410 |
| Llanelli | 1,390 | 627 | 2,017 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 2,233 | 1,011 | 3,244 |
| Mynwy | 934 | 441 | 1,375 |
| Ogwr | 1,504 | 639 | 2,143 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,358 | 635 | 1,993 |
| Pontypridd | 1,341 | 619 | 1,960 |
| Preseli Sir Benfro | 1,069 | 461 | 1,530 |
| Rhondda | 1,929 | 832 | 2,761 |
| Sir Drefaldwyn | 607 | 303 | 910 |
| Tor-faen | 2,028 | 876 | 2,904 |
| Wrecsam | 1,219 | 537 | 1,756 |
| Ynys Môn | 1,278 | 555 | 1,833 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau rhanbarthol y llafurlu – Mai 2012: Tabl 17 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn ôl Etholaethau Seneddol

**Tabl 6.2: Canran answyddogol y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn seiliedig ar gartrefi yn Etholaethau'r Cynulliad, Ebrill 2012 (ni chaiff hwn ei addasu'n dymhorol) (a)**

| Etholaeth | Dynion | Menywod | Pobl |
|---|---|---|---|
| Aberafan | 8.7 | 4.8 | 7.0 |
| Aberconwy | 6.4 | 2.7 | 4.7 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 5.0 | 3.2 | 4.2 |
| Arfon | 7.2 | 3.1 | 5.3 |
| Blaenau Gwent | 15.3 | 8.9 | 12.4 |
| Bro Morgannwg | 7.3 | 3.4 | 5.5 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 4.3 | 2.6 | 3.5 |
| Caerffili | 9.7 | 5.5 | 7.8 |
| Canol Caerdydd | 10.2 | 4.7 | 7.7 |
| Castell-nedd | 7.0 | 3.9 | 5.6 |
| Ceredigion | 3.9 | 1.9 | 3.0 |
| Cwm Cynon | 11.1 | 6.4 | 9.0 |
| De Caerdydd a Phenarth | 10.5 | 5.2 | 8.1 |
| De Clwyd | 6.3 | 3.5 | 5.1 |
| Delyn | 5.4 | 3.5 | 4.5 |
| Dwyfor Meirionnydd | 4.6 | 2.3 | 3.6 |
| Dwyrain Abertawe | 8.8 | 4.6 | 6.9 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 4.7 | 2.8 | 3.8 |
| Dwyrain Casnewydd | 10.0 | 5.7 | 8.1 |
| Dyffryn Clwyd | 8.2 | 3.6 | 6.1 |
| Gogledd Caerdydd | 5.0 | 2.5 | 3.8 |
| Gorllewin Abertawe | 9.0 | 4.2 | 6.8 |
| Gorllewin Caerdydd | 10.4 | 4.8 | 7.8 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 5.9 | 2.8 | 4.4 |
| Gorllewin Casnewydd | 10.1 | 4.9 | 7.7 |
| Gorllewin Clwyd | 6.9 | 3.2 | 5.2 |
| Gŵyr | 4.6 | 2.3 | 3.5 |
| Islwyn | 9.5 | 5.4 | 7.7 |
| Llanelli | 8.1 | 4.3 | 6.4 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 14.6 | 8.1 | 11.7 |
| Mynwy | 4.8 | 2.7 | 3.8 |
| Ogwr | 8.4 | 4.5 | 6.6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7.3 | 4.2 | 5.9 |
| Pontypridd | 6.8 | 3.7 | 5.4 |
| Preseli Sir Benfro | 6.2 | 3.3 | 4.9 |
| Rhondda | 13.0 | 7.1 | 10.4 |
| Sir Drefaldwyn | 3.7 | 2.3 | 3.0 |
| Tor-faen | 10.4 | 5.4 | 8.2 |
| Wrecsam | 6.8 | 3.6 | 5.3 |
| Ynys Môn | 8.1 | 4.3 | 6.4 |

Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Ymchwil

(a) Pobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith fel canran o'r boblogaeth economaidd weithgar sydd rhwng 16 a 64 oed. Gweler yr atodiad technegol am fanylion.

## Atodiad Technegol: Diffiniadau o ddata diweithdra

### Diweithdra ILO

*Diffiniad:* Diweithdra ILO (y Sefydliad Llafur Rhyngwladol) yw nifer y bobl sydd heb waith ond sydd eisiau swydd; y rhai sydd wedi bod yn chwilio am waith yn y pedair wythnos diwethaf ac sydd ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf; a'r rhai sydd allan o waith, sydd wedi dod o hyd i swydd ac sy'n aros i ddechrau gweithio o fewn y pythefnos nesaf.

*Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r canrannau*: Caiff canrannau ILO eu cyfrifo fel canran o'r boblogaeth sy'n 16 oed a hŷn ac sy'n economaidd weithgar. Mae 'economaidd weithgar' yn golygu pobl sydd mewn gwaith neu sy'n ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO.

*Ffynhonnell*: Mae niferoedd diweithdra'r ILO yn deillio o arolwg o'r llafurlu. Mae'r arolwg, a gaiff ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn sampl o tua 60,000 o gartrefi yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Swyddfa Ystadegau yn nodi bod newidiadau rhanbarthol o chwarter i chwarter yn arbennig o agored i gael eu dylanwadu arnynt gan amrywioldeb y samplau, **a dylid eu dehongli yng nghyd-destun newidiadau dros sawl chwarter, yn hytrach nag yn unigol.** Mae'r ffigurau hefyd wedi'u haddasu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn ystyried ffactorau tymhorol.

*Argaeledd yn ôl grŵp oedran ac ardal ddaearyddol:* Mae natur sampl yr arolwg o'r llafurlu yn golygu nad yw data am grwpiau oedran ac ardaloedd yng Nghymru (er enghraifft Etholaethau'r Cynulliad ac awdurdodau lleol) ar gael bob tri mis. Dim ond data dros y 12 mis diwethaf sydd ar gael am grwpiau oedran, Etholaethau'r Cynulliad ac awdurdodau lleol, a chaiff ei ddiweddaru unwaith bob chwarter blwyddyn.

*Defnydd*: Mesuriad diweithdra ILO yw'r prif ddangosydd diweithdra yn y Deyrnas Unedig bellach. Mae'n fesuriad mwy cynhwysfawr o ddiweithdra na'r dull o fesur nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra, ac mae'n galluogi cymharu canrannau'n rhyngwladol. Defnyddir y diffiniad gan y mwyafrif o wledydd, yn ogystal ag Eurostat (Swyddfa Ystadegau yr Undeb Ewropeaidd) a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

**Y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra**

*Diffiniad:* Mae hwn yn ddull sy'n mesur faint o bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

*Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r canrannau*: Defnyddiwyd dau ddull yn y papur hwn:

1. Canrannau yn seiliedig ar y gweithle. Mae'r canrannau hyn wedi'u cyfrifo fel nifer y bobl sy'n byw mewn ardal ac sy'n hawlio budd-dal diweithdra fel canran o'r swyddi yn y gweithlu a faint o bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra. Defnyddir y dull hwn ar gyfer yr holl ffigurau a thablau, ar wahân i'r rhai sy'n cynnwys ffigurau am Etholaethau'r Cynulliad; a

2. Canran answyddogol y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra. Mae'r etholaethau ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig, a gyflwynwyd ar gyfer etholiad cyffredinol 2010, **yr un peth** ag Etholaethau'r Cynulliad. Mae ystadegau **cyfran** y rhai sy'n hawlio budd-dal mewn **etholaethau** ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r cyfrannau hyn yn defnyddio ystadegau o'r boblogaeth sydd rhwng 16 a 64 oed fel enwadur, ac felly nid ydynt yn ystyried gwahaniaethau rhwng ardaloedd yn y gyfran sy'n economaidd weithgar.

   Mae **canran** y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn **Etholaethau'r Cynulliad** wedi'u cyfrifo gan y Gasanaeth Ymchwil, drwy fynegi nifer y rhai sy'n hawlio budd-dal fel canran o'r boblogaeth sy'n weithgar economaidd, sydd rhwng 16 a 64 oed, ac sy'n byw yn yr etholaeth. Mae hyn yn cynhyrchu mesuriad gwahanol o ddiweithdra i'r rhai a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau. Mae cyfran y bobl sy'n economaidd weithgar ym mhob etholaeth yn deillio o Gyfrifiad Poblogaeth 2001, ac wedi'u cyfrifo yn erbyn amcangyfrifon y boblogaeth sydd rhwng 16 a 64 oed ar gyfer 2008 fel y'i cynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

   Mae hyn yn wahanol i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2010, oherwydd roedd nifer y rhai a oedd yn hawlio budd-dal yn cael ei fynegi fel canran o drigolion economaidd weithgar a oedd **o oed gweithio**, yn deillio o Gyfrifiad 2001 ac amcangyfrifon 2008 o'r boblogaeth. Cyn mis Mai 2010, roedd nifer y rhai a oedd yn hawlio budd-dal diweithdra yn cael ei fynegi fel canran o drigolion economaidd weithgar a oedd yn 16 oed a hŷn, yn deillio'n llwyr o Gyfrifiad

Poblogaeth 2001. Mae'r newidiadau hyn yn unol â'r fethodoleg sy'n cael ei defnyddio gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

*Ffynhonnell*: Daw'r ffigurau ynghylch nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra o gofnodion gweinyddol y Ganolfan Byd Gwaith. Mae bob amser yn is na mesuriad diweithdra'r ILO, oherwydd nid oes gan rai pobl sy'n ddi-waith yr hawl i Lwfans Ceisio Gwaith, neu maent yn dewis peidio â gwneud cais amdano. Mae'r ffigurau hefyd wedi'u haddasu gan y Swyddfa Ystadegau er mwyn ystyried ffactorau tymhorol (ar wahân i'r rhai a ddangosir ym Mapiau 5.1 a 5.2, a Thablau 5.1 a 5.2).

*Argaeledd yn ôl grŵp oedran ac ardal ddaearyddol:* Mae ystadegau ynghylch nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra ar gael yn fisol ar gyfer grwpiau oedran ac ystod o feysydd gweinyddol llai fel Etholaethau'r Cynulliad, awdurdodau lleol a wardiau.

*Defnydd*: Er mai dim ond rhan o'r darlun a geir o ystyried y nifer o bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra, mae amseriad a chwmpas ehangach y wybodaeth hon yn ddefnyddiol er mwyn creu darlun o'r farchnad lafur ar lefel leol.